Yswiriant Car

Pryd mae angen yswiriant car arnoch

Tra'ch bod yn gyrru neu wedi parcio ar ffordd gyhoeddus

Os ydych chi'n gyrru'ch cerbyd ar y ffordd fawr, neu'n ei adael wedi'i barcio yn y stryd, mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i chi gael yswiriant car. Mae'n drosedd i beidio yswirio eich car.

Gall yr heddlu ofyn i chi ddangos eich tystysgrif yswiriant neu nodyn eglurhaol. Os nad oes gennych y dogfennau cywir yn y fan a'r lle, byddant yn rhoi saith diwrnod i chi fynd â nhw i'r orsaf heddlu o'ch dewis.

Os cewch eich stopio o dan y 'system cosb benodedig', mae'n rhaid i'r heddlu ddweud wrthych ba orsaf heddlu y mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch dogfennau. Os nad ydych yn gwneud hyn o fewn saith diwrnod, gall yr heddlu atafaelu eich cerbyd a'i werthu (er gallwch hawlio yn ôl enillion y gwerthiant).

Tra'ch bod yn cadw cerbyd oddi ar ffordd gyhoeddus

Os nad ydych yn cadw eich cerbyd ar ffordd gyhoeddus, hyd yn oed os ydych yn ei gadw ar eich eiddo, mewn garej neu i ffwrdd o gyfeiriad eich cartref, mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi gael yswiriant car.

Ni fydd angen yswiriant arnoch os:

- oes gan eich cerbyd Hysbysiad Oddi-ar-y-Ffordd Statudol (SORN) dilys
- yw eich cerbyd wedi cael ei gadw oddi ar ffordd gyhoeddus ers cyn Chwefror 1 1998
- yw eich cerbyd wedi cael ei sgrapio, wedi ei ddwyn neu ei alltudio a bod yr hysbysiadau cywir wedi'u gwneud
- yw rhwng perchnogion
- yw'n cael ei gadw mewn stoc gan werthwr ceir awdurdodedig.

Os yw'r cerbyd yn ymddangos fel nad oes ganddo yswiriant, byddwch yn derbyn llythyr oddi wrth y Ganolfan Yswirwyr Cerbydau (MIB). Bydd y llythyr hwn yn esbonio nad oes gennych yswiriant a'ch rhybuddio naill ai:

- i yswirio eich cerbyd neu
- sicrhau bod eich cwmni yswiriant wedi mewnbynnu manylion cywir y polisi yswiriant yng nghronfa data MIB (MID).

Os nad yw eich cofnod yn ymddangos ar y MID, dylech gysylltu â'r cwmni yswiriant yn syth er mwyn diweddaru MID. Gallwch wirio MID yn rhad ac am ddim yn: www.askmid.com.

Os nad ydych yn yswirio eich cerbyd o fewn y cyfnod penodol, bydd y DVLA yn rhoi cosb i chi. Os nad ydych yn yswirio eich cerbyd ar ôl hyn, gellir clampio, atafaelu a

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

dinistrio eich cerbyd neu eich cymryd i'r llys. Os ydych yn credu bod camgymeriad wedi digwydd, byddwch yn gallu apelio i'r DVLA gan ddefnyddio ei weithdrefn gwyno swyddogol.

Cewch wybod mwy am yr hyn i'w wneud fel perchennog cerbyd ar wefan Canolfan Yswirwyr Cerbydau yn stayinsured.askmid.com [http://stayinsured.askmid.com/stay-insured.html] .

Dewis yswiriant car

Cyn i chi brynu yswiriant car, penderfynwch pwy fydd yn gyrru'r car, a faint o warchodaeth fydd ei angen. Mae yna dri phrif fath o yswiriant car:

Yswiriant trydydd parti
Hwn yw'r lefel lleiaf o warchodaeth yswiriant y mae'n rhaid i chi ei gael ar gyfer eich cerbyd yn ôl y gyfraith. Mae yswiriant trydydd parti yn gwarchod difrod i gerbyd neu eiddo rhywun arall yn unig, neu anaf i rywun arall mewn damwain a achoswyd gan eich car chi. Mae hyn yn cynnwys damweiniau a achoswyd gan eich cyd-deithiwr. Os difrodir eich cerbyd chi yn y ddamwain bydd rhaid i chi dalu am yr atgyweiriadau eich hun.

Yswiriant trydydd parti, tân a lladrad
Mae hwn yn cynnwys gwarchodaeth trydydd parti ac yn ychwanegol at hyn, difrod i'ch car neu golli'ch car drwy dân neu ladrad.

Yswiriant cynhwysfawr
Mae hwn yn cynnwys yswiriant trydydd parti, tân a lladrad. Yn ychwanegol mae hefyd yn talu am atgyweiriadau i'ch car chi. Mae yna ystod o warchodaeth ychwanegol a ddarperir gan rai polisïau, gan gynnwys:

- gwarchod eich marwolaeth neu anaf chi eich hun, neu eich partner neu aelod arall o'r teulu, i fyny hyd at swm cyfyngedig
- gwarchod eich eiddo personol os ydynt yn cael eu dwyn o'ch cerbyd neu os difrodir hwy
- gwarchod eich treuliau meddygol a chyfreithiol
- llogi cerbyd arall dros dro.

Gelwir pris polisi yswiriant yn 'bremiwm'. Gofynnwch am ddyfynbrisiau oddi wrth sawl yswiriwr er mwyn eich helpu i gael y fargen orau ar gyfer eich amgylchiadau chi. Fe fydd angen i chi gymharu:

- beth mae pob polisi yn ei warchod, ac unrhyw **eithriadau** (y peryglon sy'n cael eu heithrio'n benodol, er enghraifft, caniatáu i yrwyr dan 21 i yrru'ch car)
- cyfanswm unrhyw **dâl cychwynnol**. Hwn yw swm cyntaf unrhyw hawliad, er enghraifft y £50 cyntaf, y bydd yn rhaid i chi ei dalu eich hun. Mae rhai polisïau yn caniatáu i chi dalu tâl cychwynnol uwch er mwyn cael premiwm rhatach. Disgwylir i'r mwyafrif o yrwyr ifanc (o dan 21 neu 25 yn dibynnu ar y polisi) a gyrwyr amhrofiadol i dalu **tâl cychwynnol gorfodol** sy'n uwch nag arfer.
- unrhyw **ostyngiadau** a gynigir, er enghraifft gostyngiad o 10% i yrwyr hŷn

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- y **bonws dim hawliad** sy'n cynyddu am bob blwyddyn na fyddwch yn hawlio ar eich polisi, i fyny at uchafswm. Bydd y rhan fwyaf o yswirwyr yn caniatáu i chi drosglwyddo'r gostyngiad, os byddwch chi'n newid eich yswiriwr. Bydd angen i chi gymharu hefyd faint o leihad fyddai yn eich bonws dim hawliad os fyddech chi'n gwneud hawliad
- unrhyw **eithriadau yn y polisi**, er enghraifft, gwarchod gyrwyr a enwir yn unig.

Pethau i'w cofio

- pan fyddwch chi'n prynu yswiriant, rhaid i chi roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl amdanoch chi eich hun a'ch cerbyd i'r yswiriwr neu'r person sy'n gwerthu'r yswiriant i chi . Rhaid i chi, er enghraifft, ddweud wrth yr yswiriwr neu'r person sy'n gwerthu'r yswiriant i chi am unrhyw euogfarnau gyrru, unrhyw gyflwr meddygol allai effeithio'ch gallu i yrru, neu unrhyw ddamweiniau gyrru, hyd yn oed os na hawlioch chi yswiriant o ganlyniad i hyn. Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn effeithio lefel eich premiwm, ac os bydd eich yswiriwr yn talu allan ar unrhyw hawliad neu beidio.

- os ydych chi am gynnwys unrhyw un arall yn eich yswiriant, rhaid i chi roi manylion amdanynt i'ch yswiriwr, neu'r person sy'n gwerthu'r yswiriant i chi.

- rhaid i chi roi gwybod i'r yswiriwr yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, er enghraifft, newid swydd. Fe ddylech chi ddweud cyn gynted ag y bydd y newid yn digwydd ac nid aros hyd nes y bydd yn amser adnewyddu'ch polisi

- os ydych chi'n prynu polisi yswiriant yn eich enw chi, chi ddylai fod y person sy'n gyrru'r car fwyaf. Os ydych chi'n prynu polisi yswiriant yn enw rhywun arall am ei fod yn rhatach, ac nid y nhw yw'r prif yrrwr, fe all yr yswiriwr wrthod talu eich hawliad.

- os prynwyd y cerbyd ar gredyd, bydd y cwmni ariannol fel arfer yn mynnu ei fod wedi'i yswirio yn enw'r person sydd wedi trefnu'r cytundeb credyd.

- mae polisïau yswiriant car fel arfer yn parhau am flwyddyn. Nid oes rhaid i'ch yswiriwr anfon nodyn i'ch atgoffa i adnewyddu, ond mae'r mwyafrif o yswirwyr yn gwneud hynny.

- pan fyddwch chi'n prynu neu adnewyddu yswiriant car, fe gewch chi nodyn yswiriant dros dro yn gyntaf. Bydd hwn yn ddilys am 30 diwrnod hyd nes y cewch chi gopi o'r dystysgrif yswiriant llawn. **Mae'n drosedd i yrru heb nodyn yswiriant dros dro neu dystysgrif yswiriant llawn**, felly peidiwch â dibynnu ar sgwrs ffôn yn unig lle mae rhywun wedi dweud wrthych eich bod wedi'ch gwarchod.

- fe allwch chi ganslo polisi yswiriant os gwerthwch chi'r cerbyd, os caiff ei ddwyn, neu os bydd yn cael ei ddileu. Dylech wirio'ch polisi i weld os oes gennych hawl i gael ad-daliad o'ch premiwm.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Pryd na fyddwch chi wedi'ch gwarchod gan eich yswiriant

Efallai nad ydych yn cael eich gwarchod gan eich yswiriant os:

- bydd rhywun arall, sy ddim yn gynwysedig yn eich polisi yswiriant, yn gyrru'ch car
- os nad yw'ch car yn **ddiogel ar gyfer y ffordd fawr**. Dylid derbyn ceisiadau trydydd parti o hyd.
- os ydych wedi prynu cerbyd sydd wedi'i ddwyn, hyd yn oed os na wyddoch chi ei fod wedi'i ddwyn pan brynoch chi'r cerbyd. Dylid derbyn ceisiadau trydydd parti o hyd.
- os ydych yn gyrru cerbyd rhywun arall
- os nad oes gennych **drwydded gyrru** ddilys. Dylid derbyn ceisiadau trydydd parti o hyd
- os yw'ch yswiriwr yn credu eich bod chi'n rhannol gyfrifol am y ddamwain, gall dalu rhan o'ch cais
- os nad yw'ch yswiriant yn gwarchod eich colledion i gyd, er enghraifft amser i ffwrdd o'r gwaith, anafiadau personol, llogi cerbyd, neu daliadau cychwynnol. Efallai y gallwch hawlio'r treuliau hyn oddi wrth y gyrrwr arall, ond efallai y bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys a chael cyngor cyfreithiol
- os ydyw'ch yswiriwr wedi mynd allan o fusnes ac yn methu cwrdd â'r hawliadau, efallai y gallwch gael iawndal oddi wrth **Gynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS).** Cysylltwch ag FSCS ar: 020 7892 7300. Os yw'ch yswiriwr yn aelod o Lloyds cysylltwch ag adran gwynion Lloyds ar 020 7327 5693.

Sut i wneud cais os yw'ch car wedi'i ddwyn

Os yw'ch car wedi'i ddwyn, dywedwch wrth eich yswiriwr a'r heddlu ar unwaith. Bydd eich yswiriwr yn aros am rai wythnosau cyn cytuno i'ch cais er mwyn rhoi digon o amser i ddod o hyd i'r car. Gwiriwch eich polisi i weld os ydyw'n gwarchod **llogi car arall** yn ystod yr amser hwn. Os oeddech chi'n talu'ch premiwm trwy randaliadau, efallai y bydd yn rhaid i chi ddal i dalu, er nad oes gennych gar i'w yswirio. Os deuir o hyd i'ch car ar ôl cytuno i'ch cais, yr yswiriwr fydd perchen y car. Os na ddeuir o hyd i'r car, bydd yr yswiriwr yn cynnig **gwerth y farchnad** am y car, sef y swm y gallech chi fod wedi gofyn amdano cyn iddo gael ei ddwyn. Gall y taliad hwn ddod â'ch polisi i ben, yn dibynnu ar y polisi. Ni chewch weddill y premiwm wedi'i ad-dalu, oni bai fod hyn yn gynwysedig yn eich polisi. Os nad ydych yn fodlon â'r cynnig, ceisiwch gael tystiolaeth fod y car yn werth mwy, trwy ddefnyddio canllawiau prisiau ceir neu brisiau ceir cyffelyb mewn papurau lleol. Os bydd eich trafodaethau'n methu, efallai y byddwch yn dymuno cymryd camau pellach. Am wybodaeth ynglŷn â chymryd camau pellach, gweler **Sut i wneud cwyn** ar y daflen ffeithiau hon**.**

Sut i wneud cais os yw'ch car wedi bod mewn damwain

Os ydych chi'n cael damwain:

- peidiwch byth â chyfaddef mai chi sydd ar fai yn y man lle digwyddodd y ddamwain, gan y gallai hyn wneud eich polisi yn annilys
- cyfnewidiwch enwau, cyfeiriadau a manylion yswiriant gyda gyrwyr y cerbydau eraill sy'n rhan o'r ddamwain, a mynnwch fanylion unrhyw

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

dystion annibynnol. Os oes rhywun yn gwrthod rhoi eu manylion personol i chi neu am eu hyswiriant, efallai y gall eich yswiriwr ddod o hyd iddynt trwy rif cofrestru eu car.

- dywedwch wrth yr yswiriwr am y ddamwain ar unwaith, hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu gwneud cais. Os nad ydych yn gwneud cais am y ddamwain, fyddwch chi ddim yn peryglu colli eich bonws dim hawliad.
- os oes rhywun wedi'i anafu rhaid i chi gyflwyno eich tystysgrif yswiriant (neu nodyn yswiriant dros dro) i swyddog yr heddlu neu unrhyw un sydd â sail resymol i ddymuno'i weld. Os na allwch chi wneud hyn adeg y ddamwain rhaid i chi ei gyflwyno mewn swyddfa'r heddlu o fewn saith diwrnod. Os na allwch chi wneud hyn, fe all yr heddlu atafaelu'ch car a'i werthu (er y gallwch chi hawlio nôl derbyniadau'r sêl)

Polisïau trydydd parti, a thrydydd parti tân a lladrad
Nid yw polisïau trydydd parti a thrydydd parti tân a lladrad yn gwarchod difrod damweiniol i'ch car, ond fe allant warchod difrod neu anaf personol i'r parti arall, yn dibynnu pwy sydd i'w feio am y ddamwain. Cofiwch wneud cais yn erbyn y parti arall yn gyntaf, a chaniatáu i'r yswiriwr i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am y ddamwain. Os benderfynan nhw mai chi sy'n gyfrifol, fe fydd yn rhaid i chi dalu am yr atgyweiriadau eich hun.

Er mwyn gwneud hawliad oddi wrth y gyrrwr arall, ysgrifennwch atynt yn dweud eich bod yn bwriadu gwneud hawliad yn eu herbyn. Dywedwch eich bod yn eu dal hwy'n gyfrifol am y ddamwain a gofynnwch iddynt ddweud wrth eu hyswiriwr. Dywedwch wrth eich yswiriwr chi eich bod yn hawlio oddi wrth y trydydd parti. Rhaid i'r gyrrwr arall riportio'r ddamwain wrth eu hyswiriwr hwy cyn y gellir delio â'r hawliad. Gall yr yswiriwr weithredu ar gyfarwyddiadau eu daliwr polisi hwy eu hunain yn unig. Gallwch ddarganfod os oes polisi yswiriant yn gwarchod cerbyd y gyrrwr arall trwy edrych ar **Gronfa Ddata Yswiriant Ceir**. Fe allwch gael mynediad i hwn trwy gysylltu â **Chanolfan Gwybodaeth Yswirwyr Ceir** (rhif ffôn: 0845 165 2800, gwefan: www.miic.org.uk

Os nad oes yswiriant gan y gyrrwr, neu os na ellir ei adnabod, efallai y gall **Canolfan Yswirwyr Ceir (MIB)** eich helpu i setlo'ch cais. Mewn rhai amgylchiadau efallai y gall yswiriwr ddelio â'ch hawliad, hyd yn oed lle mae'r gyrrwr yn dechnegol heb yswiriant. Er mwyn gwybod mwy am yr amgylchiadau hyn, cysylltwch â MIB ar 01908 830001.

Polisïau Yswiriant cynhwysfawr
Os oes gennych bolisi yswiriant cynhwysfawr fe ddylech chi hawlio oddi wrth eich yswiriwr eich hun. Byddwch yn ymwybodol y gallech golli eich bonws dim hawliad os na all eich yswiriwr adfer yr arian oddi wrth yswiriwr y gyrrwr arall. Fe fydd rhaid i chi o hyd hawlio oddi wrth yswiriwr y gyrrwr arall am unrhyw anafiadau gawsoch chi neu unrhyw golledion sy ddim yn cael eu gwarchod gan eich polisi yswiriant chi.

Er mwyn gwneud cais ar eich polisi yswiriant, mynnwch ffurflen hawlio oddi wrth eich yswiriwr, neu ysgrifennwch at y gyrrwr arall neu eu hyswiriwr, gan roi manylion llawn am y ddamwain a rhif polisi'r gyrrwr. Soniwch wrth yr yswiriwr am unrhyw dystion annibynnol ac anfonwch atynt unrhyw ddatganiadau tystion cyn gynted ag sy'n bosibl (fe fydd angen i chi ddarparu amcangyfrifon os ydych yn gwneud cais ar

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

bolisi yswiriant y gyrrwr arall) Os ddefnyddioch chi frocer neu asiant i brynu'ch polisi yswiriant, efallai y gallan nhw eich helpu i baratoi'ch cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn **cadw copïau o bob dogfen**, yn cynnwys llythyron, ffurflenni hawlio a datganiadau.

Peidiwch â threfnu i atgyweirio'ch car heb ganiatâd yr yswiriwr, gan taw chi fydd yn gyfrifol am y gost. Gall yr yswiriwr ofyn i beiriannydd neu aseswr hawliadau moduron i archwilio'ch car, a defnyddio cwmni atgyweirio cymeradwy i gyflawni'r gwaith. Ar y llaw arall, efallai y gofynnir i chi am gael amcangyfrifon eich hun, a'u hanfon at eich yswiriwr i'w cymeradwyo cyn y gallwch chi symud ymlaen gyda'r gwaith atgyweirio. Efallai y bydd yn rhaid i chi eich hun dalu rhan o gostau'r atgyweirio os bydd eich cerbyd mewn gwell cyflwr ar ôl cael ei drwsio nag oedd cyn hynny.

Gyrru dramor

Fe fydd gennych yswiriant car trydydd parti i yrru mewn unrhyw un o wledydd yr **Undeb Ewropeaidd (UE)**, cyhyd â'ch bod wedi prynu'ch yswiriant oddi wrth yswiriwr wedi'i leoli yn yr UE. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy wedi'u lleoli yn y DU. Sut bynnag, mae gwarchodaeth trydydd parti yn annigonol yn aml, ac mae'n fuddiol i gysylltu â'ch yswiriwr i drefnu gwarchodaeth ychwanegol.

Efallai y bydd eich polisi hefyd yn eich gwarchod i yrru mewn rhai gwledydd y **tu allan i'r Undeb Ewropeaidd**. Gwiriwch gyda'ch yswiriwr i weld os yw'r wlad yr ydych yn teithio iddi yn gynwysedig yn eich polisi. Os nad yw, fe fydd angen i chi gael gwarchodaeth ychwanegol.

Gall eich yswiriwr roi **cerdyn gwyrdd** i chi i ddangos eich bod wedi cynyddu'ch gwarchodaeth yswiriant. Mae rhai gwledydd tramor yn disgwyl i chi gael cerdyn gwyrdd.

Os ydych chi'n llogi car yn yr UDA, gwiriwch lefel y warchodaeth yswiriant a roddwyd i chi. Os mai'r lefel isaf ydyw, efallai na fydd yn ddigon i warchod holl gostau unrhyw hawliad. Fe ddylech chi brynu mwy o yswiriant, yn cynnwys yswiriant **ildiad hawl difrod gwrthdrawiad**. Os nad oes gennych ildiad hawl difrod gwrthdrawiad, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am ddifrod i unrhyw gerbyd a logir, hyd yn oed os nad chi sydd ar fai.

Yswiriant beic modur

Mae dau fath o yswiriant beic modur:

Polisi beic penodol
Hwn ydyw'r polisi yswiriant beic modur mwyaf cyffredin. Mae'n eich yswirio chi i yrru un beic modur penodol

Polisi gyrrwr
Mae'r math hwn o bolisi yn eich yswirio i yrru unrhyw feic modur i fyny at faint injan cc arbennig, gyda chaniatâd y perchennog.

Mae yswiriant beic modur fel arfer yn gyfyngedig i un person. Os ydych chi am i rywun arall yrru'ch beic modur yna mae'n rhaid i chi naill eu henwi yn y polisi, neu

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

wneud yn siŵr fod ganddyn nhw yswiriant beic modur eu hunain. Fel arfer mae yna dâl cychwynnol gorfodol ar yswiriant beic modur, ac yn gyffredinol chewch chi ddim bonws dim hawliad.

Sut i wneud cwyn

Os oes gennych broblem ynglŷn â'ch polisi yswiriant neu hawliad yswiriant, ysgrifennwch at eich yswiriwr yn gyntaf, gan roi manylion am eich cwyn, a sut yr hoffech iddo gael ei ddatrys. Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb, gwnewch gwyn ffurfiol, gan ddefnyddio trefn gwyno swyddogol eich yswiriwr.

Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad y drefn gwyno ffurfiol, ystyriwch fynd â'r gwyn ymhellach. Rhaid i bob yswiriwr fod yn atebol i reolau'r corff gwarchod cyllid, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). Mae hyn yn golygu os oes gennych gwyn am yswiriwr y gallwch fynd ag ef at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sydd ar gael i bob daliwr polisi sydd eisoes wedi dilyn trefn gwyno'r yswiriwr. Bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn ceisio datrys y gwyn trwy gyflafareddu. Os na ellir datrys yr anghydfod yn y ffordd hon, bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn cychwyn ymchwiliad ffurfiol. Mae'r yswiriwr yn rhwym i'r penderfyniad terfynol a roddir ar ddiwedd yr ymchwiliad hwn, ond os nad ydych yn cytuno ag ef, rydych yn rhydd i fynd â'ch yswiriwr i'r llys. Am fwy o wybodaeth am yr Ombwdsmon Ariannol, fe allwch ymweld â'u gwefan ar www.financial-ombudsman.org.uk, neu eu ffonio ar 0845 080 1800

Os yw'ch yswiriwr yn **aelod o Lloyds**, cysylltwch ag Adran Gwynion Lloyds ar: 020 7327 5693. Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad y cwyn hwn, cwynwch wrth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn i ddatrys eich cwyn trwy'r drefn gwyno, ond heb lwyddiant, neu os yw'ch yswiriwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU, efallai y byddwch am ystyried cymryd camau cyfreithiol. Sut bynnag, fe ddylech chi ystyried mynd i'r llys pan fetho popeth arall. Y rheswm am hyn yw y gallai llys ddyfarnu swm o iawndal sydd yn llai os nad ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddatrys y broblem mewn ffyrdd eraill cyn cymryd camau cyfreithiol.

Cyn cymryd camau cyfreithiol, mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth. Os ydych yn mynd â'ch yswiriwr i'r llys bydd yn rhaid i chi brofi fod eich cais wedi'i warchod gan eich polisi yswiriant ac efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth arbenigol. Ar y llaw arall, efallai y byddwch am ystyried mynd â'r gyrrwr arall i'r llys, os mai eu bai hwy oedd y ddamwain. Fe fydd rhaid i chi hefyd ddarganfod os oes digon o arian gyda'r person neu gwmni rydych yn eu herlyn i dalu.

Gall eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol roi cyngor i chi ynglŷn â phroblemau yswiriant, a sut i gymryd camau cyfreithiol. Er mwyn chwilio am fanylion eich swyddfa Cyngor ar Bopeth agosaf, yn cynnwys y rheiny all eich cynghori trwy e-bost, ewch i wefan www.citizensadvice.org.uk.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Yswiriant
- Dull amgen o ddatrys anghydfod

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Awst 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr